PROFFILIAU CHWARAEWYR

Georgia Evans

Mae Evans yn flaenwr. Ganwyd yng Ngwlad Belg, mae hi'n cynrychioli Cymru ac yn rhan o'r garfan. Yn ddiweddar bu iddi leisio'i barn yn erbyn 'trolls' ar y cyfryngau cymdeithasol.

Sisilia Tuipulotu

Mae Tuipulotu yn Brop Cymraeg a bu i'w thad chwarae rygbi i Tonga. Mae hi'n awyddus i guro ei record o chwarae mewn dau Gwpan y Byd.

Catherine Richards

Mae Richards yn asgellwr a chwaraeodd ei gêm gyntaf i Gymru yng Ngemau'r Chwe Gwlad 2024. Cafodd ei geni a'i magu yn Abu Dhabi i rieni Cymraeg ac roedd yn gymwys ar gyfer y garfan trwy breswyliad.

Christ Tshiunz

Ganwyd Tshiunz yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo a symudodd i Gymru pan oedd yn blentyn. Mewn cyfweliad gyda The Times, fe ddywedodd *'Roedd ceisio teimlo fel fy mod yn perthyn ar y cychwyn yn rhyfedd oherwydd dydych chi methu â chyfathrebu. Roeddwn i'n chwarae pêl-droed ac fe wnes i geisio gwneud ffrindiau y ffordd honno. Roedd yn anodd i gychwyn. Ond bu i bawb yn fy ysgol gynradd wneud ymdrech. Dychmygwch fod yn ffrindiau gyda rhywun na allech chi siarad gyda nhw. Roedd pawb yn gyfeillgar dros ben a dyna pam mae Cymru yn agos iawn at fy nghalon."*

Nick Tompkins

Ganwyd Tompkins yn Lloegr ac mae'n gymwys i chwarae i Gymru oherwydd ei Nain a anwyd yn Wrecsam.

Taulupe Faletau

Ganwyd Faletau yn Tonga ac mae'n fab i gyn-chwaraewr rhyngwladol Tongaidd, Kuli Faletau. Symudodd i Gymru gyda'i deulu pan oedd yn saith, ac fe'i dewiswyd i chwarae i'r Llewod Prydeinig ac Iwerddon ac mae wedi ymddangos ar y cae dros 100 gwaith i Gymru.